

Yr ysgol
Caiff yr ysgol ei rannu mewn i 16 ystafell dosbarth, gan gynnwys un dosbarth oed cymysg a dau ddosbarth meithrin. Yn ganolog i’r ysgol ceir llyfrgelloedd, ardaloedd creadigol a TGCh a hafanau ar gyfer hybu datblygiad y plant. Nodwyd bod 510 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed yn yr ysgol, gyda 75 ohonynt yn blant meithrin. Mae tua 7% o’r plant yn derbyn prydau ysgol am ddim, sydd 11% yn llai na’r canran cenedlaethol, sydd yn gallu golygu nad yw’r ysgol wedi ei leoli mewn ardal difreintiedig. Adnabuwyd bod gan 22% o’r plant anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn debyg i’r canran cenedlaethol sef 21%. (Estyn, 2018).

Yr ardal
Mae fy ysgol leoliad wedi ei leoli mewn ardal faestrefol ar gyrion un o ddinasoedd Cymru, gyda phoblogaeth o 15,100. Yn ganolog i’r ardal mae’r draffordd M4 a’r briffordd A48 sydd yn fantais ar gyfer cymudo o’r ddinas. Prif sectorau sydd yn cyflogi yn yr ardal ydy swyddi proffesiynol. Gall hyn olygu bod ffatrioedd a busnesau rhyngwladol yn cyflogi llawer yn yr ardal a bod yna lawer o bobl yn cymudo ar gyfer gweithio i’r cyngor, ysgolion, cwmnïoedd cenedlaethol. Amlyga hyn mae’r prif gyflogwyr yr ardal yw Morganite, Royal Mail, DVLA, Land Registry, GIG, Bemis, Virgin Media, Parc Menter a Busnesau Abertawe, Asda, Tesco a Chyngor Abertawe yn bennaf ysgolion (Cyngor Abertawe, 2020).

Roedd yr ardal yn ganolog i allforio 70,000 tonnell o glo y flwyddyn yn yr 19eg ganrif a safleoedd copr a sinc yn y 20fed ganrif. Bellach mae’n gartref i Barc Busnes a Menter Abertawe gydag archfarchnadoedd a swyddfeydd. O fewn yr ardal mae canolfan cymunedol, meddygfa, archfarchnadoedd, gorsaf trên, a stad ddiwydiannol lle mae’r parc busnes a menter.

Population Characteristics	Llansamlet	Llansamlet %	Swansea %
People: born in Wales	12,061	83.6	77.7
born outside UK	692	4.8	7.2
in non-white ethnic groups	482	3.3	6.0
with long-term health problem or disability	2,858	19.8	23.3
with no qualifications (aged 16+)	2,528	22.2	23.9
with higher level qualifications (aged 16+)	2,759	24.2	25.8
able to speak Welsh (aged 3+)	1,914	13.9	11.4

Socio-economic classification (NS-SeC)	Llansamlet	Llansamlet %	Swansea %
All usual residents aged 16-74	10,651	100	100
1-2. Higher managerial, administrative & professional	3,115	29.2	27.5
3-4. Intermediate occupations	2,512	23.6	20.3
5-7. Routine and manual occupations	3,877	36.4	33.9
8. Never worked and long-term unemployed	444	4.2	5.2
Not classified (full-time students)	703	6.6	13.1

Source: NS-SeC – ‘National Statistics Socio-economic Classification’ (three-class version), 2011 Census, ONS.

Iaith a chrefydd
Ychydig iawn o blant sydd yn dod o gefndir lleiafrifol ethnig ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffigur 1 (Cyngor Abertawe, 2020). Mae 482 o bobl yn cael ei adnabod o fewn grŵp ethnig a 692 wedi cael ei eni tu allan i’r Deyrnas Unedig. Mae 12,061 o bobl wedi cael ei eni yng Nghymru gyda 1,914 yn siarad Cymraeg. Amlyga hyn yn yr ysgol hefyd gyda dim ond 10% o’r disgyblion yn siarad Cymraeg, er mae’r Gymraeg yw prif iaith yr ysgol.

Dechrau wrth fy nhraed

Manteision cysylltiadau gyda’r gymuned (Llywodraeth Cymru, 2003).

Plant ac ysgolion-

- ★ Cyrhaeddiad uwch i ddysgwyr.
- ★ Cynnydd mewn cymhelliant a hunan-barch.
- ★ Mwy o gyfleoedd, cyfleusterau ac adnoddau.

Teuluoedd-

- ★ Gwell agwedd gan blant.
- ★ Sgiliau cymdeithasol gwell.
- ★ Rhieni eisiau cyfrannu a fod yn rhan o addysg y dysgwyr.
- ★ Cyfleoedd dysgu i’r rhieni.

Cymunedau-

- ★ Gwelliant i gyfleusterau’r ardal.
- ★ Cyfleoedd gyrfaoedd i bobl ifanc a rhieni.
- ★ Gwell gofal ar gael i blant tu allan i oriau ysgol.




Cyfraniad y gymuned ynghyd a chanllawiau Cwricwlwm i Gymru (2020)
Mae’r cwricwlwm newydd wedi cael ei gynllunio gan ffocysu ar ddatblygu plentyn fel unigolyn sydd yn “barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas” (Llywodraeth Cymru, 2020, tud. 25). Erbyn hyn mae dysgu plant yn digwydd tu hwnt i’r ystafell ddosbarth, ac mae gwneud cysylltiadau a pherthnasau agos gyda’r gymuned, gwasanaethau, rhieni/gofalwyr yn hanfodol ar gyfer addysg plant bellach.

Wrth gynllunio cwricwlwm mae athrawon yn cael ei annog i ystyried y canlynol-

- Beth y ddylem ei ddysgu a pham?
- Sut y ddylem ei ddysgu?
- Sut y bydd hyn yn cefnogi ein dysgwyr i gyflawni’r pedwar diben?

Mae’r canlynol yn rhoi ffocws ac yn caniatáu i’r athrawon i roi profiadau gwerthfawr sydd yn caniatáu i’r plant i dargedu’r pedwar diben. Dylai’r gymuned a rhieni cael cyfle i gyfrannu at fywyd a chwricwlwm yr ysgol. Golyga meithrin perthnasau gyda’r gymuned a helpu’r plant i ddatblygu a ffynnu o fewn cymdeithas. Mae defnyddio a chysylltu gyda’r gymuned mewn modd effeithiol yn cael ei gynnig fel pwynt i gefnogi’r egwyddorion. Wrth gynllunio’r cwricwlwm mi ddylai athrawon “ymgysylltu’n weithredol a rhieni, gofalwyr a’r gymuned ehangach fel partneriaid dysgu” (tud. 51).



Ffigur 3

“It takes a whole village to raise a child”-African proverb (Llywodraeth Cymru, 2016, tud. 9.)

Damcaniaethau - ysgol a’r gymuned
Mae cysylltiadau gyda’r gymuned yn datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol y plant. Cynigodd Pestalozzi a Froebel damcaniaeth a oedd yn datgan bod cymdeithas yn chwarae rhan bwysig o fewn addysg. Creda Pestalozzi bod gan bawb hawl i addysg beth bynnag ei statws cymdeithasol. Sefydlodd Pestalozzi ysgol ar gyfer plant a oedd yn byw mewn tlodi, lle roeddent yn gwneud gweithgareddau awyr agored ee nofio, ymarfer corff (Siencyn, 2018, tud.3). Un o’r canfyddiadau o adroddiad (Estyn, 2020) sydd yn canfod bod ysgolion sydd yn gweithredu mewn modd effeithiol yn gweithio gyda mudiadau lleol, trwy edrych am bylchau a grwpiau sydd ddim yn yr ardal ac yn gweithio gyda mudiadau i sefydlu yr hyn sydd angen o fewn yr ardal. Dyma’r hyn mae’r ysgol yn ei wneud trwy fynd i gwahanol ardaloedd i gael profiadau ond hefyd defnyddio’r gymuned yn yr ysgol er mwyn buddiannu’r plant. Mae’r profiadau yn eang ar draws y cwricwlwm sydd yn golygu bod y plant yn profiadau o fewn mwyafrif o o feysydd ar draws y cwricwlwm. Mi fydd hyn yn ddefnyddiol i’r ysgol wrth cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd yn 2022.

Estyn
Nodwyd yn adroddiad (Estyn, 2018) “Mae’r ysgol yn weithgar iawn yn yr ardal leol a’r gymuned ehangach”. Er mwyn gwneud hyn maent yn perfformio yn yr eglwys leol a chartref henoed sydd yn helpu’r plant i ddatblygu yn gymdeithasol a moesol. Golyga hyn bod y “disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i’w cymuned”. Caiff plant hefyd gyfle i fynd ar ymweliadau sydd yn rhoi profiadau gwerthfawr sydd yn cefnogi’r hyn sydd yn cael ei ddysgu o’r cwricwlwm. Mae’r profiadau o fewn y gymuned hefyd yn “meithrin eu chwilfrydedd a’u Cymreictod” sydd yn cefnogi’r hyn maent yn ei ddatgan bod pob plentyn yn gallu siarad Cymraeg pan maent yn gadael yr ysgol.

Theori Bronfenbrenner
Dangosa’r diagram Theori Ecolegol Bronfenbrenner haenau gwahanol sydd yn dangos beth sydd yn effeithio ar fywyd y plentyn. Caiff ei rannu mewn i bedwar ecosystem wahanol. Yr un sydd gyntaf a’r un sydd yn dylanwadu fwyaf ar y plentyn yw microsystem sydd yn cynnwys y cartref, ysgol, teulu a ffrindiau. Yr ail yw’r mesosystem sef y cysylltiad rhwng y cartref, y gymuned a’r ysgol. Nid yw’r cylch dylanwad yr ecosystem sef yr amgylchedd allanol yn effeithio yn uniongyrchol ar fywyd y plentyn. Mae’r cylch dylanwad olaf sef y macrosystem yn rhan o fywyd y plentyn a phawb ar draws y byd fel y diwylliant, gwleidyddiaeth ac amgylchedd, rhain sydd yn cael y dylanwad lleiaf ar fywyd y plentyn.

Cyferinod

Ffigwr 3 - Cormac404 (2017) *Some thoughts on an ecological perspective on social media research* (diagram). Ar gael yn:

<https://cormac404.wordpress.com/2017/05/18/some-thoughts-on-an-ecological-perspective-of-social-media-research/>

(Darllenwyd: 21 Rhagfyr 2020).

Cyngor Abertawe (2020) Llansamlet Ward Profile. Abertawe (tud. 1-6). Ar gael yn: https://www.swansea.gov.uk/media/5161/Llansamlet-Ward-Profile/pdf/Llansamlet_Ward_Profile_February_2020.pdf

(Darllenwyd: 19 Rhagfyr 2020).)

Ffigwr 1 (tud.3), Ffigwr 2 (tud.4) Cyngor Abertawe (2020) Llansamlet Ward Profile. Abertawe. Ar gael yn:

https://www.swansea.gov.uk/media/5161/Llansamlet-Ward-Profile/pdf/Llansamlet_Ward_Profile_February_2020.pdf (Darllenwyd: 19 Rhagfyr 2020).)

De Vries, B Pieters, J (2007) 'European Educational Research Journal, *Exploring the Role of Communities in Education*, 6 (4), tud. 382-392. Ar gael yn:

<https://journals.sagepub.com/doi/pdf/10.2304/eeerj.2007.6.4.382> (Darllenwyd: 21 Rhagfyr 2020).)

Estyn (2018) *Ysgol Gynradd Gymraeg Lon Las*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn:

<https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-08/Ysgol%2520Gynradd%2520Gymraeg%2520L%25C3%25B4n%2520Las%2520en.pdf> (Darllenwyd: 20 Rhagfyr 2020).

Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf> (Darllenwyd: 20 o Rhagfyr 2020).

Llywodraeth Cymru, (2003) *Community Focused School*. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/NAFWC-34-03-community-focused-schools.pdf> (Darllenwyd: 2 Ionawr 2020).

Llywodraeth Cymru, (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Darllenwyd: 21 Rhagfyr 2020).

Llywodraeth Cymru (2016) *FaCE the challenge together: Family and community engagement toolkit for schools in Wales*. Ar gael yn:

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/face-the-challenge-together-family-and-community-engagement-toolkit-for-schools-in-wales-main-guidance.pdf> (Darllenwyd: 20 Rhagfyr 2020).

Llywodraeth Cymru (2019) *My Local School*. Ar gael yn: <https://mylocalschool.gov.wales/> (Darllenwyd: 20 Rhagfyr 2020).)

Ysgol Gynradd Gymraeg Lon Las (dim dyddiad). Ar gael yn: <https://www.ygglonlas.co.uk/> (Darllenwyd: 19 Rhagfyr 2020).

Siencyn, S (2018) 'Golwg ar rai damcaniaethau' *Plant ifainc yn dysgu*, Pennod 7.

Ar gael yn: <https://repository.uwtsd.ac.uk/id/eprint/486/3/Microsoft%20Word%20-%20Pennod%207%20SWS%20Plant%20ifainc%20yn%20dysgu.pdf> (Darllenwyd: 18 Tachwedd 2020).